



**YSGOL BRO HYDDGEN**  
Tel: (01654 70 4200)  
Ffacs: (01654 70 2994)  
E-bost: [office@brohyddgen.powys.sch.uk](mailto:office@brohyddgen.powys.sch.uk)  
PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A.

7 Rhagfyr 2018

### Bro Hyddgen yn Erbyn Bwlio

Yn dilyn yr **Wythnos Gwrth Fwlio** mis Tachwedd, hoffai Ysgol Bro Hyddgen gefnogi'r ymgylch drwy amlinellu beth yw bwlio; sut i osgoi bwlio a sut i ddelio gyda bwlio?

#### Beth yw Bwlio?

Mae bwlio yn gallu cynnwys galw enwau, gwneud ffŵl o eraill, gyrru negesuon cas, dechrau straeon cas am eraill, creu niwed i eiddo eraill ar bwrrpas, anafu eraill yn gorfforol ar bwrrpas neu eithrio eraill yn reolaidd drwy beidio gadael iddyn nhw ymuno â'r grŵp. Gall bwlio hefyd gynnwys materion yn ymwneud â hiliaeth, diwylliant, crefydd, anabledd neu gyfeiriadedd rhywioldeb.

Mae gwerth nodi bod bwlio yn gallu bod yn wahanol i blant yn anghydweld. Mae rhaid cael tystiolaeth gadarn o fwlio cyn gallu dilyn y dull gweithredu gwrthfwlio.

#### Cyfrifoldeb y Plentyn:

- Dweud wrth aelod o staff ysgol/rhiant os oes bwlio - *no by standers!*
- Dweud 'na' wrth fwlio
- Cadw at eu haddewidion gwrthfwlio

#### Cyfrifoldeb yr Ysgol

- Addysgu plant am effaith bwlio
- Creu awyrgylch gwrthfwlio yn yr ysgol
- Annog staff i gadw llygad am arwyddion cynnar o fwlio
- Creu awyrgylch lle mae'r plant yn dweud wrth aelod o'r staff os oes bwlio
- Ymyrryd mewn unrhyw achos o fwlio
- Gofalu am ddisgybl sy'n cael ei fwlio

#### Cyfrifoldeb Rhieni

- Addysgu plant am effaith bwlio
- Rhoi gwybod i'r ysgol yn syth os oes bwlio yn digwydd
- Bod yn ymwybodol o beth mae'r plant yn ei wneud ar lein, ffonau symudol a yb...
- Bod yn ymwybodol o ddulliau newydd o fwlio e.e *Snapchat* nodwedd show or cover, *Instagram*, *Whatsapp* a *Facebook* a llawer mwy
- Gweithio gyda'r ysgol i atal bwlio

Hoffwn eich atgoffa nad yw'r ysgol yn gallu bod yn gyfrifol am ddigwyddiadau sy'n digwydd tu allan i'r ysgol.

Gyda'n gilydd yn sefyll yn erbyn bwlio!



**YSGOL BRO HYDDGEN**  
Tel: (01654 70 4200)  
Ffacs: (01654 70 2994)  
E-bost: [office@brohyddgen.powys.sch.uk](mailto:office@brohyddgen.powys.sch.uk)  
PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A.

7 December 2018

### **Bro Hyddgen Against Bullying**

*Following our Anti Bullying week in November, Ysgol Bro Hyddgen would like to continue to support the campaign by outlining what is bullying; how to avoid bullying and how to deal with bullying.*

#### **What is Bullying?**

*Bullying can include name calling, making a fool of others, sending mean messages, starting mean rumours about others, purposely damaging someone else's property, hurting others on purpose or repeatedly excluding others by not letting them join in. Bullying can also stem from matters including race, culture, religion, disability or sexual orientation.*

*It is important to state that bullying is not the same as children falling out. We have to have clear evidence of bullying before we can enforce the bullying procedure.*

#### **The Child's Responsibility:**

- To tell a member of school staff/parent if there is bullying – no bystanders!
- To say 'no' to bullying
- To keep to their anti-bullying pledges

#### **The School's Responsibility:**

- To teach pupils about the effect of bullying
- To create an anti-bullying environment in the school
- To encourage staff to keep an eye for early signs of bullying
- To create an environment where pupils tell a member of staff if there's bullying
- To intervene in cases of bullying
- To take care of any pupil who is being bullied

#### **The Parents' Responsibility**

- To teach pupils about the effect of bullying
- To let the school know straight away if there's bullying
- To be aware of what children are doing online, on their mobile phones and so on
- To be aware of new forms of bullying e.g. Snapchat and the show or cover feature, Instagram, Whatsapp and Facebook and many more
- To work with the school to prevent and tackle bullying

*I would like to remind you that the school cannot deal with events that happen outside of school.*

*Together standing against bullying!*